

❖ GŴYL Y GENI

Nos dawel, ddi-awel oedd hi – a naws
 Hanner nos oedd iddi,
 Awr gannaid oedd awr geni
 Oesau'n ôl ein Iesu ni.

Oes, mae cyfaredd arbennig yn englyn Dic Goodman, y bardd o Fynytho. Mynega ein teimladau ni oll pan ddaw'r amser i ddathlu 'gŵyl fawr y geni'.

Ni allwn osgoi unwaith eto yr 'hen, hen hanes' a pharhau i ddatgan:

Yn awr, clyw y byd y garol,
 Fe lenwir y nef â chlod
 Am fod yr Iesu rhyfeddol
 I'w lety newydd yn dod.

Gwyddom mai gwireddu 'dirgel gyfrinach arfaeth Duw' fu dilyniant dod i'r llety hwn.

'Rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.'

Darllenais unwaith mai

Difyrrwch plant yw stori
 Am eni baban Mair.

Cofiw'n hefyd am eiriau sydd yn parhau â diddanwch yr ŵyl trwy gyhoeddi:

Cofir am y llu angylion
 A'u newyddion yn y nos
 Yn rhoi syndod i'r bugeiliaid
 Wrth y gorlan ar y rhos.

Nid yn unig daeth newyddion da i feysydd Bethlehem, ond i fyd cyfan fu'n disgwyl cyhyd.

'Yn yr un ardal yr oedd bugeiliaid allan yn y wlad yn gwarchod eu praidd liw nos.'

Rhamant a dirgelwch yn ei gylch yw hanes y tri brenin doeth ddaeth o'r dwyrain i weld a chydabod yr 'Un bach a'r newydd mawr'.

Yn ein llawenydd unwn eto gyda'r doethion:
 O dwg ni wedi'r teithio pell
 At drothwy llwm ei sanctaidd gell,
 Dwg ni lle ganwyd Ef.

Efelychwn y gwŷr doeth a:

Gostyngwn ddeulin wrth y pyrth
 Lle rhoddes Duw ei bennaf wyrth.

'Daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon?"'

Diolch am gyfle unwaith eto i atgoffa'n gilydd o ramant 'Gŵyl y Geni'.

Gŵyl y Gân, Gŵyl y Geni – Gŵyl y Nef,
 Gŵyl yn hau daioni,
 Gŵyl enwog y Goleuni,
 Gŵyl yr hedd, Gŵyl Iôr yw hi.

Mae englyn y diweddar Barch Trebor Roberts yn ddiweddglo pwrpasol i grynhoi ein teimladau. Gobeithio y gallwn dreulio a theimlo dedwyddwch yr ŵyl yn ein mysg eto eleni.

Emrys Parry